



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 1317 (Cy.111)

BANCIAU A BANCIO
CYMDEITHASAU ADEILADU

Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 (Cyfngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynllun a fydd yn caniatáu dosbarthu'r arian sydd mewn cyfrifon banc a chyfrifon cymdeithasau adeiladu segur er budd y gymuned, gan sicrhau y diogelir hawl perchnogion i adhawlio'u harian.

Mae adran 19(1) o'r Ddeddf honno yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, wneud darpariaeth sy'n cyfyngu'r dibenion y caniateir dosbarthu arian cyfrifon segur ar eu cyfer er mwyn cwrdd â gwariant yng Nghymru, neu gyfyngu'r mathau o bersonau y caniateir dosbarthu arian o'r fath iddynt.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cyfyngu dosbarthu arian cyfrifon segur er mwyn cwrdd â gwariant yng Nghymru i'r hyn sy'n diogelu neu'n gwella'r amgylchedd, neu'r hyn sy'n diwallu anghenion pobl nad ydynt eto wedi cyrraedd 26 mlwydd oed.

Ni luniwyd asesiad effaith mewn cysylltiad â'r Gorchymyn hwn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat neu wirfoddol.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 1317 (W.111)

BANKS AND BANKING
BUILDING SOCIETIES

The Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 set up a framework for a scheme under which money in dormant bank and building society accounts can be distributed for the benefit of the community, whilst ensuring the right of owners to reclaim their money is protected.

Section 19(1) of that Act provides that Welsh Ministers may by Order make provision restricting the purposes for which, or the kinds of person to which, a distribution of dormant account money for meeting Welsh expenditure may be made.

This Order restricts the distribution of dormant account money for meeting Welsh expenditure to that which protects or enhances the environment or that which meets the needs of people who have not attained the age of 26 years.

No impact assessment has been produced for this Order as no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

2010 Rhif 1317 (Cy.111)

BANCIAU A BANCIO

CYMDEITHASAU ADEILADU

Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 (Cyfngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010

Gwnaed

20 Ebrill 2010

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 19(1) o Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr a phersonau priodol eraill yn unol ag adran 19(2) o'r Ddeddf honno.

Mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 19(3) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cychwyn, a chymhwysedd

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 (Cyfngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cyfngiadau a ragnodir

2. Rhaid i ddosbarthiad o arian cyfrifon segur ar gyfer cwrdd â gwariant yng Nghymru gael ei wneud-

2010 No. 1317 (W.111)

BANKS AND BANKING

BUILDING SOCIETIES

The Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010

Made

20 April 2010

Coming into force in accordance with article 1(2)

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the power conferred by section 19(1) of the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008(1).

The Welsh Ministers have consulted the Big Lottery Fund and other appropriate persons in accordance with section 19(2) of that Act.

A draft of this Order has been laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales in accordance with section 19(3) of that Act.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Dormant Bank and Building Society Accounts Act 2008 (Prescribed Restrictions) (Wales) Order 2010.

(2) This Order comes into force on the day after the day on which it is made.

(3) This Order applies in relation to Wales.

Prescribed restrictions

2. A distribution of dormant account money for meeting Welsh expenditure must be-

(1) 2008 p.31.

(1) 2008 c.31.

- (a) ar gyfer cwrdd â gwariant ar ddiogelu neu wella'r amgylchedd, neu wariant sy'n gysylltiedig â hynny, neu
 - (b) ar gyfer cwrdd â gwariant ar ddarparu gwasanaethau, cyfleoedd i gwrdd ag anghenion pobl nad ydynt eto wedi cyrraedd 26 mlwydd oed, neu wariant sy'n gysylltiedig â hynny.
- (a) made for meeting expenditure on or connected with the protection or enhancement of the environment, or
 - (b) made for meeting expenditure on or connected with the provision of services, facilities or opportunities to meet the needs of people who have not attained the age of 26 years.

Alun Ffred Jones

Y Gweinidog dros Dreftadaeth, un o Weinidogion Cymru

20 Ebrill 2010

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Minister for Heritage, one of the Welsh Ministers

20 April 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

2010 Rhif 1317 (Cy.111)

BANCIAU A BANCIO

CYMDEITHASAU ADEILADU

Gorchymyn Deddf Cyfrifon Banc a
Chymdeithasau Adeiladu Segur
2008 (Cyfyngiadau Rhagnodedig)
(Cymru) 2010

2010 No. 1317 (W.111)

BANKS AND BANKING

BUILDING SOCIETIES

The Dormant Bank and Building
Society Accounts Act 2008
(Prescribed Restrictions) (Wales)
Order 2010